# Cyflawni Gweithdrefnau Deintyddol Ceffylau Categori 2

## Trosolwg

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'r gweithdrefnau a ddisgrifir fel Gweithdrefnau Deintyddol Ceffylau Categori 2 ac maent yn cynnwys trin ceffylau yn ddiogel, gofal cwsmeriaid, defnyddio cyfarpar priodol, hybu lles anifeiliaid a'r broses o weithio o fewn cyfrifoldebau cyfreithiol a phroffesiynol.

O dan y Ddeddf Milfeddygon (1966), ystyrir bod pob gweithdrefn ddiagnostig a thriniaeth yng ngheg y ceffyl yn weithdrefnau milfeddygol, ac eithrio gwaredu gordyfiannau deintiol â llaw, sef gydag offer llaw. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o weithdrefnau deintyddol ceffylau wedi'u cyfyngu o dan y gyfraith i filfeddygon.

Er ystyrir bod Gweithdrefnau Categori 2 yn weithredoedd milfeddygol, gellir eu dirprwyo i dechnegydd ddeintyddol ceffylau (EDT) sydd wedi hyfforddi a phasio arholiad a gydnabyddir gan y diwydiant (arholiad BEVA/BVDA neu arholiad Categori 2 WWAED).

Mae'r Gweithdrefnau Categori 2 yn llunio rhan o system raddio gweithdrefnau deintyddol ceffylau ac maent wedi'u derbyn gan Goleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS), Cymdeithas Milfeddygaeth Ceffylau Prydain (BEVA), Cymdeithas Milfeddygaeth Prydain (BVA), Cymdeithas Milfeddygaeth Ddeintyddol Prydain (BVDA) a Chymdeithas Technegwyr Deintyddol Ceffylau Prydain (BAEDT). Dangosir manylion gweithdrefnau deintyddol ceffylau Categorïau 1-3 yn yr eirfa.

Mae'r safon hon ar gyfer technegwyr deintyddol cymwysedig ceffylau. Bydd angen i ddefnyddwyr y safon sicrhau bod eu hymarfer yn adlewyrchu gwybodaeth a pholisïau cyfredol, a'u bod yn gweithio o fewn cyfyngiadau eu hawdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'u profiad.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

P1 gweithio yn unol â'r Ddeddf Milfeddygon (1966) ac o fewn cyfyngiadau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
P2 nodi a mynd i'r afael â risgiau i iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â'r ardal weithio a'r gwaith sy'n cael ei gyflawni ar eich cyfer chi, y ceffyl ac eraill
P3 cael hanes y ceffyl o ran ei iechyd cyffredinol, clefyd deintiol a chlefyd y geg, a thriniaethau deintyddol blaenorol
P4 cadarnhau bod cyfarpar wedi'i baratoi a'i roi yn ei le, yn barod i'w ddefnyddio, gan gynnwys cyfarpar diogelu personol (PPE)
P5 sicrhau bod y ceffyl yn cael ei drin yn briodol fel y gellir cyflawni'r gweithdrefnau deintyddol
P6 adnabod yr ymddygiadau, yr amodau a'r gweithdrefnau/triniaethau gofynnol sy'n arwydd bod angen tawelydd cemegol
P7 cyfathrebu'n broffesiynol gyda milfeddyg i drefnu bod tawelydd yn cael ei roi, ar adeg ac mewn lleoliad cyfleus, os bydd angen
P8 cynnal asesiad corfforol o'r ceffyl, gan ganolbwyntio ar strwythurau allanol wrth ymyl y deintiad
P9 cynnal archwiliad gweledol ac archwiliad â llaw/â'r bysedd o geg y ceffyl, a chofnodi eich canfyddiadau
P10 esbonio, cynghori a chytuno ar gynllun triniaeth gyda pherchennog/asiant y ceffyl, gan gynnwys cydnabod pan na fydd angen triniaeth
P11 ymgymryd â Gweithdrefnau Deintyddol Ceffylau Categori 2 fel y bo'n briodol i'r ceffyl a'r cynllun triniaeth cytunedig, gan sicrhau bod ceffylau wedi cael tawelydd oni ystyrir ei bod hi'n ddiogel ymgymryd ag unrhyw weithdrefn arfaethedig heb dawelydd, gyda chydsyniad gwybodus llawn y perchennog/asiant:
P11.1 archwilio, gwerthuso a chofnodi annormaleddau ddeintiol
P11.2 gwaredu dannedd rhydd neu dameidiau deintiol gyda bach iawn o atodiadau periodontol
P11.3 gwaredu dannedd blaidd sydd wedi torri trwodd ond heb eu dadleoli yn y safn uchaf neu isaf, o dan oruchwyliaeth uniongyrchol a pharhaus milfeddyg
P11.4 rhathellu dannedd sydd wedi torri a dannedd cyfagos yn lliniarol
P11.5 defnyddio offer deintyddol â motor pan ddefnyddir y rhain i leihau gordyfiant a gwaredu pwyntiau enamel miniog yn unig.
P12 gweithio yn unol â'r ystyriaethau arbennig ar gyfer gwaredu dannedd blaidd sydd

wedi torri trwodd ond heb eu dadleoli sy'n Weithdrefn Ddeintyddol Ceffylau Categori 2, fel a ganlyn:

P12.1 dylai milfeddyg roi tawelydd cemegol ac analgesia fel y bo'n briodol, cyn gwaredu'r dannedd blaidd

P12.2 mae'r milfeddyg yn bresennol ar gyfer darparu tawelydd, analgesia ac ôl ofal

P12.3 mae trefniadau wrth gefn ar gyfer cymhlethdodau'n cael eu trefnu cyn dechrau'r weithdrefn

P13 defnyddio cyfarpar â motor yn gywir i osgoi anafiadau iatrogenig i geg ceffyl

P14 nodi ac adnabod pa ddoluriau y mae angen eu cyfeirio at filfeddyg a gwneud yr argymhellion priodol i'r perchennog/asiant

P15 cynnal perthynas waith broffesiynol gyda milfeddyg y ceffyl

P16 cadarnhau bod lles y ceffyl yn cael ei gynnal bob amser ac nad yw eich rhyngweithio â'r ceffyl yn effeithio'n andwyol ar ei ymddygiad

P17 cydymffurfio â deddfwriaeth a chodau ymarfer cyfredol ar iechyd a lles anifeiliaid bob amser

P18 cadarnhau bod dulliau gweithio yn hybu iechyd a diogelwch a'u bod yn gyson â'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer perthnasol

P19 cynnal lefelau priodol o hylendid a bioddiogelwch drwy gydol y broses

P20 cynnal eich safonau proffesiynol a'ch moeseg eich hun fel technegydd deintyddol ceffylau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K1 gofynion y Ddeddf Milfeddygon (1996) yn gysylltiedig â'ch rôl a chategorïau gweithdrefnau deintyddol ceffylau, yn cynnwys:

K1.1 Categori 1

K1.2 Categori 2

K1.3 Categori 3

K2 y prif risgiau i iechyd a diogelwch yn yr ardal weithio a sut i leihau risgiau i chi'ch hun, i'r ceffyl ac i eraill

K3 sut i drin a rheoli'r ceffyl, yr amrywiaeth o wahanol ddulliau trin a rheoli, a'r defnydd cywir ohonynt

K4 ymddygiad ceffylau, gan gynnwys arwyddion poen, trallod, braw ac osgoi

K5 sut i adnabod pan fydd angen rhoi tawelydd i geffyl, a phan mae'n ddiogel ymgymryd ag unrhyw weithdrefn arfaethedig heb dawelydd, gyda chydsyniad gwybodus llawn y perchennog/asiant

K6 yr anatomi a'r ffisioleg sy'n berthnasol i:

K6.1 geudod y geg

K6.2 y pen

K6.3 y llwybr resbiradol

K6.4 y system draul

K6.5 y system nerfol

K7 y cyfarpar, gan gynnwys cyfarpar diogelu personol (PPE), a'r deunyddiau sy'n ofynnol i gyflawni Gweithdrefnau Deintyddol Ceffylau Categori 2, gan gynnwys eu defnydd a'u hylendid cywir, a'u cynnal a chadw'n gywir

K8 y ffactorau sy'n effeithio ar ddewis offerynnau a chyfarpar ar gyfer y gwahanol weithdrefnau Categori 2, a'r defnydd cywir ohonynt

K9 risgiau defnyddio cyfarpar â motor, gan gynnwys risgiau iechyd a diogelwch i bobl a'r anafiadau iatrogenig i'r ceffyl

K10 pwysigrwydd trafod canfyddiadau a thriniaeth gyda'r perchennog/asiant a chael eu cydsyniad i barhau

K11 sut i gyflawni'r Gweithdrefnau Deintyddol Ceffylau Categori 2 canlynol:

K11.1 archwilio, gwerthuso a chofnodi annormaleddau ddeintiol

K11.2 gwaredu dannedd rhydd neu dameidiau deintiol gyda bach iawn o atodiadau periodontol

K11.3 gwaredu dannedd blaidd sydd wedi torri trwodd ond heb eu dadleoli yn y safn

uchaf neu isaf, o dan oruchwyliaeth uniongyrchol a pharhaus milfeddyg

K11.4 rhathellu dannedd sydd wedi torri a dannedd cyfagos yn lliniarol

K11.5 defnyddio offer deintyddol â motor pan ddefnyddir y rhain i leihau gordyfiant a gwaredu pwyntiau enamel miniog yn unig.

K12 pwysigrwydd cynllunio wrth gefn ar gyfer cymhlethdodau a beth mae hyn yn ei gynnwys

K13 rôl a phwysigrwydd atgyfeirio i filfeddyg a chyfathrebu â'r milfeddyg

K14 sut i adnabod effaith eich ymddygiad ar y ceffyl a sut i leihau unrhyw effeithiau andwyol ar ei ymddygiad

K15 eich cyfrifoldebau am iechyd a lles anifeiliaid o dan ddeddfwriaeth a chodau ymarfer cyfredol

K16 eich cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth a chodau ymarfer amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol

K17 pwysigrwydd defnyddio cyfarpar diogelu personol a'r defnydd cywir ohono

K18 dulliau cynnal hylendid a bioddiogelwch a'r rhesymau pam mae'r rhain yn bwysig

K19 eich cyfrifoldebau proffesiynol fel technegydd deintyddol ceffylau

K20 pwysigrwydd cadw'ch gwybodaeth am feddygaeth seiliedig ar dystiolaeth yn gyfredol a sut i'w defnyddio

K21 rôl sefydliadau proffesiynol i gefnogi eich rôl fel technegydd deintyddol ceffylau a'r gofynion am ddatblygiad proffesiynol parhaus

K22 eich atebolrwydd cyfreithiol a phroffesiynol wrth weithio fel technegydd deintyddol ceffylau a phwysigrwydd yswiriant priodol

## Geirfa

**Deddfwriaeth lles anifeiliaid:**
Cymru a Lloegr – Deddf Lles Anifeiliaid 2006
Yr Alban – Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006
Gogledd Iwerddon – Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 2011

**Gweithdrefnau Deintyddol Ceffylau Categori 1, 2 a 3:**
***Gweithdrefnau Categori 1***
Y gweithdrefnau hynny y gall unigolyn eu cyflawni ar ôl hyfforddiant cydnabyddedig, heb ennill cymwysterau yn benodol:
archwilio'r dannedd;
gwaredu pwyntiau enamel miniog gan ddefnyddio rhathellau â llaw yn unig;
gwaredu gordyfiannau deintiol bach (leihau 4mm ar y mwyaf) gan ddefnyddio rhathellau â llaw yn unig;
proffilio blaen y cilddannedd cyntaf (leihau 4mm ar y mwyaf), sef "siapio sedd genfa" yn flaenorol;
gwaredu dannedd cyntaf rhydd; a
gwaredu calcwlws uwchorfannol

***Gweithdrefnau Categori 2***
Gweithdrefnau ychwanegol sy'n addas i'w dirprwyo i Dechnegydd Deintyddol Ceffylau (EDT) sydd wedi hyfforddi a phasio arholiad a gymeradwywyd gan DEFRA:
archwilio, gwerthuso a chofnodi annormaleddau ddeintiol;
gwaredu dannedd rhydd neu dameidiau deintiol gyda bach iawn o atodiadau periodontol;
gwaredu dannedd blaidd sydd wedi torri trwodd ond heb eu dadleoli yn y safn uchaf neu isaf, o dan oruchwyliaeth uniongyrchol a pharhaus milfeddyg;
rhathellu dannedd sydd wedi torri a dannedd cyfagos yn lliniarol; a
defnyddio offer deintyddol â motor pan ddefnyddir y rhain i leihau gordyfiant a gwaredu pwyntiau enamel miniog yn unig. Dylai ceffylau gael tawelydd oni ystyrir ei bod hi'n ddiogel ymgymryd ag unrhyw weithdrefn arfaethedig heb dawelydd, gyda chydsyniad gwybodus llawn y perchennog.

***Gweithdrefnau Categori 3***
Byddai pob gweithdrefn arall ac unrhyw weithdrefnau newydd, sy'n codi o ganlyniad i ddatblygiad gwyddonol a thechnegol, yn disgyn i gategori 3 yn uniongyrchol, sef y gweithdrefnau hynny sydd wedi'u cyfyngu i filfeddygon cymwys ac na fwriedir eu

dadreoleiddio. Felly, NID yw’n gyfreithlon i’r rhain gael eu cyflawni gan bobl nad ydynt yn filfeddygon.

**Ceffyl**

At ddiben y safon hon, mae’r gair “ceffyl” yn cynnwys asyn, mul, bastard mul, merlyn/merlen ac equidae eraill.

Cyflawni Gweithdrefnau Deintyddol Ceffylau Categori 2

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 2 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 1925 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2030 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEDC6 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Technegydd Deintyddol Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Gweithgareddau Milfeddygol Para-broffesiynol, Gofal Deintyddol Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | Gweithdrefnau deintyddol ar geffyl; cyngor |